| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **13 GORFFENNAF 2015** |
| TEITL: | **RHAGLEN WAITH** |
| PWRPAS: | **I benderfynu ar y rhaglen waith ar gyfer y Bwrdd Pensiwn** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI'R WYBODAETH** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rôl y bwrdd yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r holl reoliadau perthnasol, deddfwriaeth a gofynion eraill mewn perthynas â'r cynllun. Bydd y bwrdd hefyd yn cynorthwyo'r awdurdod i sicrhau eu bod yn llywodraethu a gweinyddu'r cynllun yn effeithiol ac effeithlon.

1.2 Mae'r Rheolydd Pensiynau wedi datgan mai'r rhannau o lywodraethu a gweinyddu y mae angen i chi ganolbwyntio ar wrth oruchwylio'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ydi:

- Dyletswyddau adrodd
- Rheolaethau mewnol a rheoli risgiau
- Cadw cofnodion
- Cyfathrebu ag aelodau
- Cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun
- Cynnal cyfraniadau
- Gwrthdaro buddiannau a chynrychiolaeth y Bwrdd Pensiwn
- Datrys anghydfodau mewnol
- Adrodd achosion o dorri'r gyfraith

## 2. CYLCH GORCHWYL

2.1 Sefydlwyd y Bwrdd Pensiwn yng Nghyfansoddiad Cyngor Gwynedd ar 5 Mawrth 2015. Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiynau eu mabwysiadu gan y Cyngor yr adeg honno ac mae copi gyda'r rhaglen hon o dan yr eitem Mabwysiadu Cylch Gorchwyl.

## 3. CYNLLUN GWAITH

3.1 Er mwyn strwythuro gwaith y Bwrdd, dylid cytuno ar raglen o feysydd i'w harchwilio er mwyn i'r wybodaeth a'r adroddiadau gael eu darparu pan fo'r angen. Mae'r canlynol yn feysydd posibl y gall y bwrdd eu hystyried:

- Buddiannau sy'n gwrthdaro
- Risg Cyflogwyr a chyfamodau
- Cyfathrebu a chyflogwyr
- Cyfathrebu a gweithwyr
- Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn
- Cyhoeddiadau eraill

Efallai bydd gan aelodau o'r Bwrdd faterion eraill y maent yn dymuno eu cynnwys ar y rhaglen.

3.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei cyflwyno i'r Gyfarfod Blynyddol ar 8fed Medi 2015 a gellir cynnwys yr adroddiad awgrymu materion i'w ystyried hefyd.

3.3 Argymhellir bod y Bwrdd yn cytuno cynllun gwaith ar gyfer 2015/16 a hwyrach tu hwnt.

## 4. CASGLIAD

4.1 Gofynnir i aelodau benderfynu ar y broses ar gyfer cytuno ar y rhaglen waith a thargedau.